arolygiad ar y safle;

b) Bydd y Contractwr (Arolygydd Cofrestredig) yn cwblhau ei (h)asesiad terfynol o berfformiad aelodau'r tîm o fewn pum niwrnod gwaith o dderbyn eu hadborth SAAd;

c) Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn llenwi'r ffurflen p'un a yw hunanasesiad y Contractwr wedi cael ei gwblhau ai peidio. Pan fydd yr Arolygydd Cofnodol wedi cwblhau eu rhan nhw o'r asesiad, caiff y FfAA ei chau, ac nid oes modd i'r Contractwr ychwanegu unrhyw hunanasesiad ar ôl hynny.

Bydd yr Arolygydd Cofnodol, mewn perthynas â'r Tîm Arolygu, yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig ar unwaith am unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymddygiad neu allu, yn cynnwys perfformiad, ac yn cydweithredu'n llawn ag Estyn mewn unrhyw ymchwiliad.

13.3 Rhaid i'r Contractwr gydweithredu'n llawn ag AEM neu archwilwyr statudol Estyn, eu hasiantiaid a benodwyd yn briodol ac aelodau enwebedig o staff Estyn a benodwyd i gynnal ymweliadau monitro yn unol ag Amod 13.1 uchod, gan gynnwys sicrhau bod ymatebion cyflym yn cael eu rhoi i bob cais am wybodaeth. Bydd y cymorth yn ymestyn i ddarparu ar gais pob dogfennaeth berthnasol (ym marn Estyn) i Estyn eu harchwilio, a mynychu unrhyw gyfarfod a phob cyfarfod yn ymwneud â'r Arolygiad yn y Sefydliad neu rywle arall.

13.4 Yn dilyn y cyfryw waith monitro ac asesu yn unol ag Amod 13.1 uchod, bydd Estyn yn hysbysu'r Contractwr ynghylch sut y mae'r ddarpariaeth Gwasanaethau yn bodloni gofynion Estyn fel y'u cyflwynir yn yr Arweiniad.

13.5 Yn rheolaidd, bydd Estyn yn casglu'r holl wybodaeth sicrhau ansawdd ar gyfer pob Contractwr. Mae hyn yn ein galluogi ni i nodi unrhyw berfformiad anfoddhaol. Bydd lefelau gwahanol o berfformiad anfoddhaol yn mynnu camau gweithredu gwahanol gennym ni. Os oes gan Estyn bryderon ynglŷn ag ansawdd gwaith unrhyw Gontractwr, ymdrinnir â hyn yn unol â'r polisi 'trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau sy'n cael eu harwain gan Estyn.'

13.6 Pan fydd Estyn yn penderfynu cynnal adolygiad tystiolaeth, bydd y Contractwr, ar gais, yn anfon, neu'n trefnu anfon â llaw neu bost dosbarth cyntaf wedi'i gofnodi, y cyfryw Ddogfennau Arolygu neu dystiolaeth arall y gall Estyn ofyn amdani, er mwyn ei harchwilio. Dylid anfon y cyfryw Ddogfennau Arolygu neu dystiolaeth arall yn rhad ac am ddim i Estyn, ar ei ffurf wreiddiol, a gall Estyn ei chadw'n barhaol neu dros dro ar ei ddisgresiwn llwyr.

## 14 FFURFLENNI MEWNBWN AROLYGIAD

14.1 Bydd y Contractwr, gan ddefnyddio'r templedi ar-lein a ddarperir yn system arolygu Estyn, yn llenwi ac yn arbed ffurflen fewnbwn ei dîm yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol a llawlyfrau arweiniad perthnasol ac (ar ei draul ei hun), bydd

## 33 Y GYFRAITH A RHEOLIADAU

33.1 Bydd y Contract hwn yn cael ei reoli gan gyfreithiau Cymru a Lloegr (fel y'u cymhwysir yng Nghymru).

33.2 Mewn perthynas â materion sy'n codi o dan Amod 15 (Cwynion) uchod, bydd y Partïon yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

33.3 Bydd y Contractwr ym mhob mater sy'n codi wrth gyflawni'r Contract yn cydymffurfio â'r holl Ddeddfau Seneddol ac â'r holl orchmynion, rheoliadau ac is-ddeddfau a wneir gydag awdurdod statudol gan Lywodraeth Cymru neu gan Awdurdodau lleol neu Awdurdodau eraill mewn grym o dro i dro a fydd yn gymwys i'r Contract.

